19. Newidiadau Trefniadol i'r Ysgol

Mae'r bennod hon yn rhoi disgrifiad cryno o sut mae newidiadau'n cael eu gwneud i batrwm a threfniadaeth darpariaeth ysgol leol.

Cefndir

1. Ni ellir newid patrwm neu drefniadaeth ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin) ond ar ôl cyfnod o ymgynghori cyhoeddus a chyhoeddi hysbysiadau'n caniatáu gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol gan ddilyn trefn a bennir gan y gyfraith.

2. Rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus o gynigion i wneud unrhyw newidiadau i ysgol a gynhelir, gan gynnwys ysgol arbennig a gynhelir (ac eithrio lle nodir hynny ac yn amodol ar baragraff 3) ond nid oes rhaid yn achos ysgol feithrin a gynhelir (gweler paragraff 4 am wybodaeth am ysgolion meithrin) er mwyn:

- sefydlu ysgol newydd (e.e. sefydlu ysgol newydd sbon neu ysgol newydd yn lle dwy ysgol neu fwy sy'n uno);
- cau ysgol;
- estyn adeiladau neu safle'r ysgol pe byddai hynny'n golygu y gallai'r ysgol dderbyn mwy na 30 o ddisgyblion ychwanegol, a phe byddai, ynghyd ag estyniadau blaenorol, yn golygu cynnydd ym maint yr ysgol o 25% neu 200 o ddisgyblion; oni ddisgwylir i'r ysgol fynd yn ôl i'w maint blaenorol o fewn tair blynedd (h.y. estyniad dros dro). Nid yw hyn yn gymwys i ysgolion arbennig (gweler paragraff 3 isod am y ddarpariaeth gyfwerth);
- troi estyniad dros dro'n estyniad parhaol;
- ychwanegu neu ddiddymu darpariaeth y mae'r ALl yn cydnabod sydd wedi'i neilltuo i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Nid yw hyn yn gymwys i ysgolion arbennig (gweler paragraff 3 isod am y ddarpariaeth gyfwerth);
- newid o ysgol gymysg i ysgol un rhyw neu fel arall;
- newid ystod oedran yr ysgol;
- cynyddu neu leihau nifer y pynciau perthnasol a addysgir yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg lle bo ysgol yn addysgu rhai pynciau perthnasol yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg; (oni bai bod y newid yn rhan o brosiect peilot a gymeradwyir gan Lywodraeth y Cynulliad);
- cynyddu neu leihau nifer y pynciau perthnasol a addysgir yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo ysgol yn addysgu rhai pynciau perthnasol yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg; (oni bai bod y newid yn rhan o brosiect peilot a gymeradwyir gan Lywodraeth y Cynulliad);

- dechrau addysgu pynciau perthnasol yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg lle bo ysgol yn addysgu pob pwnc perthnasol yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg (oni bai bod y newid yn rhan o brosiect peilot a gymeradwyir gan Lywodraeth y Cynulliad);
- dechrau addysgu pynciau perthnasol yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg lle bo ysgol yn addysgu pob pwnc perthnasol yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg (oni bai bod y newid yn rhan o brosiect peilot a gymeradwyir gan Lywodraeth y Cynulliad);
- addysgu pob pwnc perthnasol yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg lle addysgir rhai pynciau perthnasol i rai disgyblion yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd;
- addysgu pob pwnc perthnasol yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg lle addysgir rhai pynciau perthnasol i rai disgyblion yn llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg ar hyn o bryd; oni bai bod y newid yn rhan o brosiect peilot a gymeradwyir gan Lywodraeth y Cynulliad);
- cyflwyno neu roi terfyn ar fandio;
- cyflwyno neu roi terfyn ar ddarpariaeth breswyl;
- trosglwyddo ysgol o'i safle presennol i safle arall, ac eithrio:
  - pan drosglwyddir yr ysgol i gaeau chwarae'r ysgol; neu
  - pan nad yw'n ymarferol rhesymol gwella safon y safle presennol y gyrraedd y safon a bennwyd a bod y safle newydd o fewn dwy filltir i'r safle presennol; neu
  - pan nad yw'n ymarferol ehangu'r adeiladau addysgu i'r maint angenrheidiol a bod y safle newydd o fewn dwy filltir i'r safle presennol;
- newid categori ysgol.

3. Yn achos ysgolion arbennig a gynhelir, mae'n rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus lle cynigir gwneud y newidiadau a nodir uchod, neu yn ogystal â'r rheini, unrhyw rai o'r canlynol:

- ac eithrio ar gyfer ysgol mewn ysbyty, bod nifer y disgyblion yn cynyddu gan y lleiaf o 10% neu 5 disgybl (lle mae'r ysgol yn derbyn disgyblion preswyl yn unig) neu 20 o ddisgyblion (mewn unrhyw achos arall);
- lle mae gan yr ysgol ddisgyblion dydd a phreswyl, cynyddu neu ostwng darpariaeth llety o 5 disgybl;
- newid y math o AAA y mae'r ysgol yn darparu ar eu cyfer.

Yn achos cynigion i drosglwyddo ysgol arbennig a gynhelir o'i safle gwreiddiol i safle arall, mae'n rhaid rhoi rhybudd cyhoeddus oni bai bod yr ysgol yn trosglwyddo i safle sy'n cael ei ddefnyddio fel caeau chwarae'r ysgol.

4. Yn achos ysgol feithrin a gynhelir, mae'n rhaid rhoi hysbysiad cyhoeddus lle cynigir gwneud un o'r canlynol:

- sefydlu ysgol newydd (e.e. sefydlu ysgol newydd sbon neu ysgol newydd yn lle dwy ysgol neu fwy sy'n uno);
- cau ysgol;
- estyniad, gan gynnwys estyniad dros dro i'r adeiladau addysgu neu'r man addysgu o 50% neu fwy;
- ychwanegu neu ddiddymu darpariaeth y mae'r ALl yn cydnabod sydd wedi'i neilltuo i ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig;
- newid o ysgol gymysg i ysgol un rhyw; neu fel arall;
- trosglwyddo'r ysgol i safle newydd ac eithrio pan fydd mynedfa'r safle newydd o fewn 1.609344 cilometr (1 filltir) i brif fynedfa'r hen safle;
- lle mae grŵp blwyddyn yn cael ei addysgu'n llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg, unrhyw newid a fyddai'n golygu y byddai unrhyw grŵp blwyddyn yn cael ei addysgu'n llwyr neu'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg, neu fel arall.

VA VC F 5. Gall corff llywodraethu ysgol wirfoddol, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig wneud cynigion ei hun ar gyfer yr holl newidiadau ym Mharagraff 2. Gall gau'r ysgol trwy roi o leiaf ddwy flynedd o rybudd o'i fwriad i wneud hynny i Weinidogion Cymru a'r ALl o dan adran 30 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Gall yr ALl gynnig cau'r ysgol hefyd.

VA VC F 6. Dylai corff llywodraethu ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig drafod, cyn gynted â phosibl, unrhyw gynlluniau i ad-drefnu gydag unrhyw awdurdod esgobaethol, grŵp ffydd cenedlaethol, ymddiriedolaeth neu sefydliad elusennol y maent yn gysylltiedig ag ef.

S 7. Dim ond ALl all wneud cynigion i agor, cau neu wneud newidiadau i ysgolion arbennig cymunedol, ac eithrio er mwyn newid categori.

S FS 8. Gall ALl neu gorff llywodraethu ysgol arbennig gymunedol wneud cynigion i newid categori ysgol arbennig sefydledig.

S 9. Cyn i'r ALl neu'r corff llywodraethu gyhoeddi unrhyw gynigion ar gyfer ysgol, rhaid iddynt ymgynghori ag unrhyw un sydd â diddordeb yn y cynigion. Mae'r rheoliadau sy'n rhoi manylion y broses i'w dilyn wedi'u rhestru ar ddiwedd y Bennod hon. Dylai'r ymgynghoriad gynnwys unrhyw ALl sy'n debygol o gael ei effeithio, y llywodraethwyr, rhieni, staff yr ysgol ac eraill sydd â diddordeb (ac yn achos ysgol arbennig byddai'r rhain yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol a Thimau Anabledd Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol).

10. Os yw'r ALl neu'r corff llywodraethu'n penderfynu gwneud cynigion ffurfiol, rhaid iddynt eu cyhoeddi fel hysbysiad cyhoeddus yn yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol, neu'r ardal y bydd yr ysgol yn ei gwasanaethu. Gall unrhyw sefydliad neu unigolyn wrthwynebu'r cynnig.

11. Rhaid anfon gwrthwynebiadau i gynigion yr ALl i'r ALl. Dylid fel rheol anfon gwrthwynebiadau o'r fath cyn pen deufis ar ôl cyhoeddi'r cynigion, ond mewn rhai amgylchiadau penodol dylid eu hanfon cyn pen mis. Rhaid i'r ALl anfon unrhyw wrthwynebiadau a sylwadau arnynt i Lywodraeth y Cynulliad o fewn mis i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, neu o fewn pythefnos i ddiwedd cyfnod gwrthwynebu byrrach.

12. Rhaid anfon gwrthwynebiadau i gynigion a gyhoeddir gan gorff llywodraethu i Lywodraeth y Cynulliad. Dylid fel rheol anfon gwrthwynebiadau o'r fath cyn pen deufis ar ôl cyhoeddi'r cynigion, ond mewn rhai amgylchiadau penodol dylid eu hanfon cyn pen mis.

13. Os gwneir gwrthwynebiadau statudol i unrhyw gynigion, neu y cynigir newid i gategori, ni fydd yn bosibl i'r cynigion fynd rhagddynt heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

14. Os na dderbynnir gwrthwynebiadau i gynnig, ac nad yw'n golygu newid categori, mae'n rhaid i'r ALl neu gorff llywodraethol benderfynu a ddylid eu cyflawni o fewn pedwar mis i'r hysbysiad am y cynigion gael eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad.

15. Bydd Gweinidogion Cymru yn asesu unrhyw gynigion y cyfeirir atynt, gan ystyried yr holl ffeithiau a dadleuon perthnasol, a gallant wedyn benderfynu:

- cymeradwyo'r cynigion, neu
- eu cymeradwyo gyda mân newidiadau ar ôl ymgynghori â'r cynigwyr; neu
- eu gwrthod.

16. Ar ôl i'r cynigion gael eu cymeradwyo, rhaid i'r cynigwyr weithredu arnynt, er y gallant ofyn i Weinidogion Cymru gytuno â mân newidiadau, er enghraifft, newid y dyddiad pan fyddai'r cynigion yn dod i rym.

17. Os bydd yr amgylchiadau'n newid gan olygu nad yw'n ddoeth gweithredu cynigion a gymeradwywyd, gall ALl a chyrff llywodraethu gyhoeddi cynigion newydd a fydd, os cânt eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru, yn diddymu'r ddyletswydd i weithredu'r cynigion gwreiddiol.

Cyrff Llywodraethu Dros Dro

18. Pan fo cynnig wedi'i gymeradwyo/terfynu i sefydlu ysgol a gynhelir newydd, bydd yn ofynnol sefydlu:-

- corff llywodraethu dros dro cyn corffori'r ysgol;
- corff llywodraethu parhaol a fyddai'n dod i rym o'r dyddiad y sefydlir yr ysgol.

Mae gwybodaeth am y broses sy'n ofynnol i gyflawni'r uchod wedi'i chynnwys ym Mhennod 20 y canllaw hwn, 'Ysgolion Newydd a Chyrff Llywodraethu Dros Dro'.

Y Gyfraith

Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: adrannau 28-31, a 35 ac Atodiadau 6 a 8
Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999, OS 1999/1671
Rheoliadau Addysg (Ysgolion Arbennig a Gynhelir) (Cymru) (Diwygio) 1999 OS 1999/1780
Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2001:OS 2001 2678(W.219)
Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) (Diwygio) 2004 OS 2004/908(W.91)
Rheoliadau Newid Categori Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2005 OS 2005 2916(W.213)

Canllawiau

Cylchlythyr 9/99 Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Trefniadaeth Lleoedd Ysgol
Cylchlythyr 21/09 Llywodraeth Cynulliad Cymru: Cynigion Trefniadaeth Ysgolion